# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Tŷ Gwyn, Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 9 Mai 2018

Dyddiad cyhoeddi: 10 Awst 2018

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78937-541-1



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

Ansawdd profiad y claf ........ 8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 16

4. Beth nesaf? ........ 18

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol ........ 20

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 21

Atodiad B – Cynllun gwella ........ 22

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Tŷ Gwyn.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC a Phennaeth Gofal Iechyd Annibynnol AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth proffesiynol a phrofiad cadarnhaol i gleifion
- Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus
- Roedd dogfennau ar gael i ddangos bod gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw yn cael ei wneud yn rheolaidd ar y peiriant laser
- Roedd yr adeilad yn lân ac yn daclus

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dogfennaeth sy'n cofnodi cydsyniad llafar i driniaeth
- Proses ar gyfer rhoi adborth ynghylch barn cleifion
- Diweddariadau i bolisïau diogelu plant ac oedolion

Gwnaethom nodi tor-rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn ynglŷn â diweddariadau i'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiad â rheoliadau.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Tŷ Gwyn wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol gan ei fod yn darparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 yn 14 Heol Sway, Abertawe, SA6 6HT.

Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 14 Tachwedd 2013.

Mae’r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff, gan gynnwys y rheolwr cofrestredig, ac ef yw’r unig weithredwr laser.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau ar gyfer cleifion dros 18 oed gan ddefnyddio'r canlynol:

Laser Waterlase iPlus:

- Adferiadau
- Triniaeth ar gyfer clefyd y deintgig difrifol
- Selwyr agennau
- Mân weithdrefnau llawfeddygol ar y geg (meinwe galed a meinwe feddal)

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Darperid gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod triniaethau.

Roedd angen creu proses ar gyfer cofnodi cydsyniad i driniaeth a roddwyd ar lafar.

Roedd angen diweddaru'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r rheoliadau.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth"*
>
> *"Mae'r staff bob amser yn wybodus, yn gyfeillgar ac yn effeithlon"*

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau eu bod bob amser yn cwblhau ffurflen hanes meddygol, neu fod eu hanes meddygol yn cael ei wirio, cyn i unrhyw driniaeth gael ei chynnal.

Fel rhan o gynllun triniaeth ddeintyddol cyffredinol, gwelsom fod hanesion meddygol cleifion yn cael eu gwirio cyn iddynt gael triniaeth, ac yn cael eu cofnodi'n electronig.

### Urddas a pharch

Dywedwyd wrthym y byddai drysau yn cael eu cau pan oedd cleifion yn derbyn triniaeth, er mwyn cynnal preifatrwydd cleifion yn ystod y driniaeth. Roedd ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafell driniaeth hefyd, sy'n golygu bod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol yn gallu cael ei thrafod heb i neb ei chlywed.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod staff yn ei drin ag urddas a pharch a'i fod yn teimlo ei fod bob amser yn gallu cynnal ei breifatrwydd, urddas a gwyleidd-dra ei hun yn ystod ei apwyntiadau.

### Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Roedd cleifion yn derbyn ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn cael triniaeth. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, dywedwyd wrthym y byddai'r deintydd yn trafod y weithdrefn, risgiau a buddion, a chanlyniad tebygol y driniaeth.

Gwnaeth pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur gytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall opsiynau'r driniaeth oedd ar gael iddo, a'r risgiau a'r buddion oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn triniaeth. Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal heintiau a chynorthwyo'r broses iachau ar ôl eu triniaeth.

Lle bo'n berthnasol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddo bob amser cyn iddo dderbyn y driniaeth. Gwelsom fod taflen wybodaeth ar gael hefyd i gleifion er mwyn darparu arweiniad ar driniaethau laser.

Dywedwyd wrthym y ceir caniatâd ar lafar oddi wrth gleifion cyn cynnal unrhyw driniaeth. Gwnaethom argymell bod y deintydd yn sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion. Gwnaeth yr holl gleifion ond un a gwblhaodd holiadur gadarnhau eu bod bob amser yn llofnodi ffurflen ganiatâd cyn derbyn unrhyw driniaeth newydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cydsyniad llafar i driniaeth yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion a datganiad o ddiben ar gael i ddarparu gwybodaeth am y gwasanaeth a chanfuom fod angen diweddaru'r ddau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

O ran y gwasanaethau laser a ddarperir, roedd angen diweddaru'r canllaw i gleifion i gynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, crynodeb o safbwyntiau cleifion, cyfeiriad a manylion cyswllt AGIC, a manylion am sut y gall cleifion gael mynediad at adroddiad arolygu diweddaraf AGIC.

Roedd datganiad o ddiben ar gael a gwelsom fod angen iddo gael ei adolygu a'i ddiweddaru hefyd yn unol â'r rheoliadau. Roedd angen gwneud diweddariadau i sicrhau bod manylion staff yn gywir, gan gynnwys y strwythur sefydliadol. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau hefyd fod y datganiad o ddiben yn cael ei adolygu yn rheolaidd, oherwydd nid oeddem yn gallu gweld bod hyn wedi'i wneud ers 2013.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur mai Saesneg oedd ei hoff iaith a'i fod bob amser yn gallu siarad â staff yn ei iaith o ddewis.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur hefyd fod staff yn gwrando arno yn ystod ei apwyntiad a'i fod yn teimlo ei fod wedi cymryd rhan, cymaint ag yr oedd yn dymuno, mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am ei driniaeth.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cael eu diweddaru yn unol â'r rheoliadau, a darparu copïau i AGIC.

## Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y rheolwr cofrestredig mai drwy'r broses ymgynghori y byddai cleifion yn cael eu nodi fel addas o bosib ar gyfer triniaethau laser fel rhan o'u cynllun triniaeth ddeintyddol cyffredinol. Roedd hyn yn helpu i sicrhau mai dim ond cleifion addas a fyddai'n cael cynnig triniaethau gyda'r laser.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal cofrestr triniaeth gyffredinol sy'n benodol i'r peiriant laser. Roedd angen i wybodaeth ychwanegol gael ei chofnodi, gan gynnwys enw'r protocol triniaeth er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r driniaeth a ddarparwyd, llofnod y sawl sy'n rhoi'r driniaeth, a manylion unrhyw effeithiau anffafriol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gofrestr driniaeth yn cael ei diweddaru.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y gwasanaeth yn gallu defnyddio un ystafell driniaeth ar gyfer triniaethau laser, a oedd wedi'i lleoli ar lawr cyntaf yr adeilad. Roedd angen dringo grisiau i fynd at yr ystafell driniaeth, ac roedd hyn yn golygu y byddai cleifion a chanddynt anawsterau symudedd neu sy'n defnyddio cadair olwyn yn ei chael yn anodd cael mynediad at y gwasanaeth.

### Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Canfuom fod y gwasanaeth yn casglu barn cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir iddynt drwy holiaduron bob tri i bedwar mis. Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod canlyniad unrhyw adolygiad o'r wybodaeth a gesglir yn cael ei rannu â chleifion a'i gynnwys ar ffurf crynodeb yn y canllaw i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod crynodeb o adborth cleifion yn cael ei nodi yn y canllaw i gleifion, a'i rannu â'r cleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu triniaeth i gleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau addas ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, ac roedd wedi ymrwymo i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd angen diweddaru'r polisïau diogelu plant ac oedolion.

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth, a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad. Gwelsom dystiolaeth fod Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Darparwyd ardystiad i ddangos bod y gwiriadau gwifrau bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad yn gyfredol a bod y boeler nwy wedi cael gwasanaeth blynyddol.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau diogelwch tân. Roedd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn. Roedd arwyddion yn nodi'r allanfeydd tân. Roedd asesiad risg tân ar waith, a gafodd ei adolygu ddiwethaf ym mis Mai 2018. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant diogelwch tân yn cael ei gynnal yn flynyddol. Gwnaethom argymell y dylai'r rheolwr cofrestredig gadw cofnod o unrhyw hyfforddiant a roddir i staff er mwyn nodi ei fod wedi cael ei gwblhau. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth fynediad i becyn cymorth cyntaf, ond roedd y dyddiad wedi dod i ben ar rai o'r eitemau. Atgoffwyd y rheolwr cofrestredig i gyfnewid yr holl gynhyrchion oedd wedi mynd heibio i'w dyddiadau. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

## Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod yr adeilad i'w weld yn lân ac yn daclus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur naill ai yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod yr amgylchedd naill ai yn lân neu'n weddol lân.

Rhoddwyd disgrifiad manwl gan y gwasanaeth o'r trefniadau rheoli heintiau a gwelsom fod polisi manwl ynghylch rheoli heintiau ar waith. Roedd y gwasanaeth hefyd yn cadw rhestr wirio o weithgareddau glanhau er mwyn helpu i sicrhau bod yr holl staff yn dilyn yr un broses.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu gwastraff clinigol a domestig.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae cofrestriad y gwasanaeth yn caniatáu i'r rheolwr cofrestredig ddefnyddio'r laser ar blant ac oedolion. Gwelsom fod polisïau diogelu plant ac oedolion ar waith, ond roedd angen eu diweddaru i gynnwys manylion cyswllt timau diogelu'r cyngor lleol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oeddem yn gallu gweld tystysgrifau oedd yn dangos bod hyfforddiant wedi'i gwblhau mewn diogelu plant ac oedolion. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi'i gwblhau ond nid oedd tystysgrifau ar gael ar y diwrnod. Gwnaethom dderbyn copïau o'r tystysgrifau perthnasol ar ôl yr arolygiad.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r polisïau diogelu plant ac oedolion er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys manylion cyswllt timau diogelu'r cyngor lleol.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y rheolwr cofrestredig wedi derbyn hyfforddiant uwch ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser a bod rhan o'r hyfforddiant hwn yn cynnwys craidd gwybodaeth.[1]

Gwelsom fod contract ar waith gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau a bod rheolau lleol yn manylu sut i weithredu’r peiriant mewn modd diogel, a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Gwelsom dystysgrifau'n dangos bod y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio’r peiriant laser a oedd wedi'u darparu gan weithiwr meddygol proffesiynol.

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod drws yr ystafell driniaeth ar gau tra oedd triniaeth yn mynd rhagddi. Gwelsom arwyddion rhybuddio ar y tu allan i'r drws hefyd i nodi bod y peiriant yn cael ei ddefnyddio. Pan nad oedd yn cael ei defnyddio, roedd yr allwedd yn cael ei storio yn ddiogel ym mhell oddi wrth y peiriant er mwyn helpu i atal mynediad heb awdurdod.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr laser. Pan wnaethom ei archwilio, gwelsom fod y cyfarpar diogelu llygaid mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.

Canfuom fod asesiad risg amgylcheddol wedi'i gynhyrchu gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau, a oedd yn cynnwys argymhellion ynghylch y bleinds ar ffenestr yr ystafell laser. Atgoffwyd y rheolwr cofrestredig i sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a nodwyd gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau yn cael eu rhoi ar waith, er i ni gydnabod mai dim ond yn ddiweddar iawn roedd yr asesiad risg wedi'i gynhyrchu.

### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Canfuwyd gennym fod y gwasanaeth yn ymgymryd â nifer o weithgareddau gwella ansawdd, gan gynnwys adborth cleifion, myfyrio clinigol ynghylch

---

[1] Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys mewn modd diogel.

canlyniadau i gleifion, amserlenni glanhau, ac amrywiaeth o archwiliadau eraill sy'n berthnasol i'r practis deintyddol.

### Rheoli cofnodion

Gwnaethom nodi bod darpariaeth dda ar gyfer diogelu data cleifion, a oedd yn cael ei gadw'n electronig.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Canfuom fod y gwasanaeth yn drefnus ac yn rhagweithiol wrth ddarparu triniaethau i gleifion mewn ffordd broffesiynol.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Practis Deintyddol Tŷ Gwyn yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig, sy'n cael ei gefnogi o ddydd i ddydd gan dîm ehangach o staff clinigol a gweinyddol deintyddol. Y rheolwr cofrestredig yw'r unig un sy'n defnyddio'r peiriant laser.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith a gwelwyd tystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Er mai'r rheolwr cofrestredig yw'r unig un sy'n gallu defnyddio'r peiriant laser, dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal bob mis.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol ar waith.

### Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwnaethom ganfod bod gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno ar waith. Er nad oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gŵynion am ei driniaethau laser, gwelsom dystiolaeth fod gan y gwasanaeth broses addas ar waith ar gyfer ymdrin â chŵynion a'u cofnodi mewn modd priodol.

### Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gan mai'r rheolwr cofrestredig yn unig a allai ddefnyddio'r peiriant laser, gwelsom ei fod wedi derbyn hyfforddiant cynhwysfawr mewn defnyddio'r laser

penodol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd unrhyw gynlluniau ar waith ar hyn o bryd i hyfforddi staff eraill i ddefnyddio'r peiriant laser.

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd y rheolwr cofrestredig wrthi'n gwneud cais i gael gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. .

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu arnynt, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy’n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i’r afael â hwy

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi ni i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy’n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o’r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Diwallu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir mwy o wybodaeth am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio’r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Tŷ Gwyn

**Dyddiad yr arolygiad:** 9 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cydsyniad llafar i driniaeth yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion. | Rheoliad 15 (1) (a) (b)<br>Safon 9: Gwybodaeth a chydsyniad cleifion | Byddwn yn sicrhau y bydd y llinell hon yn cael ei hysgrifennu yn nodiadau'r cleifion, gan roi sylw i'r mater yng nghyfarfod y practis ar 3 Gorffennaf 2018. | Mustafa Mukhaiber | 3 Gorffennaf 2018 |
| Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cael | Rheoliad 7 (1) (d) (f) | Mae'r ddwy ddogfen wedi'u diweddaru ac anfonwyd copïau at AGIC. | Charlotte | 22 Mehefin 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| eu diweddaru yn unol â'r rheoliadau, a darparu copïau i AGIC. | Rheoliad 6 (5) (6) (10)<br>Safon 18: Cyfathrebu'n effeithiol | | | |
| Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gofrestr driniaeth yn cael ei diweddaru. | Rheoliad 23 (1) (a) (i)<br>Safon 8: Cynllunio a darparu gofal | Wedi'i diweddaru gyda'r dyddiad a llofnod darparwr y driniaeth. | Mustafa Mukhaiber | 9 Mai 2018 |
| Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod crynodeb o adborth cleifion yn cael ei nodi yn y canllaw i gleifion, a'i rannu â'r cleifion. | Rheoliad 7 (1) (e)<br>Safon 5: Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth | Bellach wedi'i gynnwys ac erbyn hyn yn y canllaw i gleifion. | Charlotte | 9 Mai 2018 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r polisïau diogelu plant ac oedolion er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys manylion cyswllt timau diogelu'r cyngor lleol. | Rheoliad 16 (1) (a); (3) (a)<br>Safon 11: Diogelu plant | Mae'r ddau bolisi wedi'u diweddaru. | Charlotte | 22 Mehefin 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | ac oedolion agored i niwed Diogelu plant ac oedolion agored i niwed | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Mustafa Mukhaiber

## Swydd: Deintydd

## Dyddiad:23/6/2018